# PRESENOLDEB YNG NGHYFARFODYDD YR AWDURDOD LLEOL

Mabwysiadwyd y Rheolau Gweithdrefn Cyfarfodydd o Bell hyn gan y Cyngor ac fe'u gwnaed yn unol ag Adran 47 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

1. Bydd y Cyngor yn parhau i gynnal ei galendr o gyfarfodydd drwy ddefnyddio llwyfannau rhithwir nes y caiff cyfyngiadau COVID-19 Llywodraeth Cymru eu codi. Bydd cyfarfodydd y Cyngor sy'n agored i'r Cyhoedd yn cael eu ffrydio'n fyw o 1 Mai 2021 (yn amodol ar rai eithriadau*), gyda hygyrchedd i'r Cyhoedd weld cyfarfodydd y Cyngor sy’n cael eu darparu ar wefan y Cyngor. Os oes gan y Cyngor ddarpariaeth ar gyfer siarad cyhoeddus mewn cyfarfodydd, bydd pobl sydd wedi cofrestru i siarad ynghyd ag unrhyw dystion arbenigol y mae'n ofynnol iddynt fod yn bresennol, yn cael dolen uniongyrchol i gael mynediad i gyfarfod.

    1.1 DS: *Cyfarfodydd a fydd yn cael eu heithrio fydd y rhai sydd ar y cyfan yn gyfrinachol eu natur (Rhan 11) e.e. y Pwyllgor Ymddeol yn Gynnar a Dileu Swyddi. Ni fydd y cyfarfodydd hyn yn cael eu ffrydio'n fyw ond bydd cofnodion y cyfarfodydd yn cael eu lanlwytho i'r wefan cyn gynted ag y bo modd wedi hynny.

2. O ran codi cyfyngiadau COVID-19 Llywodraeth Cymru, bydd cyfarfodydd hybrid yn cael eu cyflwyno h.y. ateb cyfarfod sy'n galluogi pobl nad ydynt yn yr un lle i fynychu cyfarfodydd, yn gorfforol ac o bell. Cynhelir cyfarfodydd y Cyngor sy'n agored i'r cyhoedd drwy'r dull hwn a bydd gwefan y Cyngor yn rhoi manylion hygyrchedd.

3. Amser a lle – Cynhelir cyfarfodydd ar yr adeg a hysbysir yn yr agenda ond gellir eu cynnal mewn mwy nag un lle a gallant gynnwys lleoliadau electronig, digidol neu rithwir megis lleoliadau rhyngrwyd, cyfeiriadau gwe neu rifau ffôn galwadau cynhadledd.

4. Hysbysiad o gyfarfodydd – O leiaf dri diwrnod gwaith clir cyn cyfarfod, ac eithrio mewn achosion brys a/neu pan fydd y cyfarfod yn cael ei symud neu ei ganslo ar ôl hysbysiad o'r fath, bydd Pennaeth y Gwasanaeth Cyflogedig (neu'r Dirprwy yn ei absenoldeb) yn anfon agenda drwy ddulliau electronig at bob Cynghorydd y Cyngor neu'r corff perthnasol. Bydd yr agenda yn rhoi dyddiad ac amser pob cyfarfod ynghyd â'r manylion ar gyfer mynediad o bell neu hybrid.

5. Ar yr adeg yr anfonir yr hysbysiad o'r cyfarfod a'r agenda, bydd y swyddog perthnasol yn trefnu i'r hysbysiad o'r cyfarfod a'r agenda, ynghyd â chopïau o'r adroddiadau sydd ar gael, gael eu cyhoeddi ar wefan y Cyngor.

6. Pan fydd adroddiad ar gael ar ôl cyhoeddi'r hysbysiad a'r agenda, bydd y swyddog perthnasol yn ei anfon yn electronig at bob Cynghorydd ac yn trefnu i gopi gael ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor cyn gynted ag y bo'n ymarferol.

7. Cworwm – Bydd nifer y Cynghorwyr y mae'n ofynnol iddynt fod yn bresennol ar gyfer cworwm ar gyfer cyfarfod fel y nodir yn y Cyfansoddiad. Fodd bynnag, at ddibenion penderfynu a yw cworwm o Gynghorwyr yn bresennol mewn cyfarfod, bydd y Maer/Cadeirydd yn cynnwys yr holl Gynghorwyr hynny sy'n bresennol o bell. Os yw'r Maer/Cadeirydd yn cyfrif nifer y Cynghorwyr sy'n bresennol, ar unrhyw adeg o'r cyfarfod, ac yn datgan nad oes cworwm yn bresennol, yna deuir â'r cyfarfod i ben yn syth. Bydd gweddill y busnes yn cael ei ystyried ar ddyddiad ac amser a bennir gan Bennaeth y Gwasanaeth Cyflogedig mewn ymgynghoriad â'r Maer/Cadeirydd ac Arweinydd y Cyngor.

8. Datgan Buddiannau – Cynghorydd y byddai'n ofynnol fel arfer iddo adael yr ystafell wrth ystyried eitem o fusnes oherwydd bod gan y Cynghorydd fuddiant rhagfarnllyd y gellir ei ddatgelu neu ei fod â buddiant arall y gall Cod Ymddygiad y Cyngor ei gwneud yn ofynnol i'r Cynghorydd wneud hynny, yn cael ei ystyried wedi gwneud hynny os yw'r Cynghorydd yn datgysylltu ei fynediad o bell ac yn parhau i gael ei ddatgysylltu nes y bydd y Maer/Cadeirydd yn gwahodd y Cynghorydd i ail-ymuno â'r cyfarfod.

9. Trafod busnes cyfrinachol a datgelu gwybodaeth eithriedig – Pan gaiff Cynnig ei basio i eithrio'r cyhoedd a'r wasg o'r cyfarfod oherwydd y drafodaeth ar fusnes cyfrinachol neu wybodaeth eithriedig, hawl y cyhoedd a'r Wasg i weld neu weld a chlywed, bydd y cyfarfod yn dod i ben a bydd eu mynediad electronig yn cael ei ddatgysylltu. Yn achos presenoldeb corfforol mewn cyfarfod o'r Cyngor, gofynnir iddynt adael yr ystafell.

10. Ymddygiad yn ystod cyfarfodydd – Ni chaiff cynghorwyr sy'n bresennol o bell, neu unrhyw aelod o'r cyhoedd sy'n arfer yr hawl i siarad o bell, siarad oni bai y gelwir arnynt i wneud hynny gan y Maer/Cadeirydd a byddant yn peidio â siarad pan fydd y Maer/Cadeirydd yn dweud wrthynt i wneud hynny.

**D.S. Mae'r Weithdrefn hon yn ychwanegol at Reolau Gweithdrefn y Cyngor fel y'u cynhwysir yng Nghyfansoddiad y Cyngor ac i'r Gweithdrefnau Cyfarfod o Bell y cytunwyd arnynt o dan y defnydd o Bwerau Brys y Rheolwr Gyfarwyddwr yn 2020.**